**GORCHYMYN CEFNFFORDD YR A477 (SANCLÊR, SIR GAERFYRDDIN I DDOC PENFRO, SIR BENFRO) (CYFYNGIADAU CYFLYMDER DROS DRO A DIM GODDIWEDDYD) 2022**

Mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn o dan adran 14 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984. Mae angen y Gorchymyn er mwyn gwneud gwaith ar gefnffordd yr A477, neu gerllaw iddi, rhwng Sanclêr, Sir Gaerfyrddin a Doc Penfro, Sir Benfro.

Effaith y Gorchymyn yw gwneud y canlynol dros dro:

i. gosod terfyn cyflymder o naill ai 40 mya neu 10 mya a gwahardd goddiweddyd ar y darnau o gefnffordd yr A477 a ddisgrifir yn Atodlen 1 i'r Hysbysiad hwn; a

ii. gosod terfyn cyflymder o 10 mya a gwahardd goddiweddyd ar y darnau o gefnffordd yr A477 a ddisgrifir yn Atodlen 2 i'r Hysbysiad hwn.

Dim ond pan fydd gwaith confoi yn digwydd y bydd y terfyn cyflymder o 10 mya yn gymwys.

Daw'r Gorchymyn i rym ar 5 Medi 2022. Disgwylir y bydd y cyfyngiadau a'r gwaharddiad dros dro yn weithredol o 00:01 o'r gloch ar y dyddiad hwnnw hyd 23:59 o'r gloch ar 16 Rhagfyr 2022 neu hyd nes y caiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol.

Dim ond yn ystod y dyddiadau a bennir uchod y disgwylir i'r Gorchymyn fod yn weithredol. Er hynny, bydd yn parhau'n ddilys am gyfnod o 18 mis ar y mwyaf rhag ofn y bydd angen ailamserlennu'r gwaith neu wneud gwaith canlyniadol neu waith arall. Bydd hysbysiad am unrhyw newidiadau i'r amseroedd a'r dyddiadau yn cael ei arddangos cyn i unrhyw waith a ailamserlennir ddechrau.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar wefan Llywodraeth Cymru ar https://llyw.cymru/gorchmynion-ffyrdd.

**Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.**

**J SADDLER**
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

**THE A477 TRUNK ROAD (ST CLEARS, CARMARTHENSHIRE TO PEMBROKE DOCK, PEMBROKESHIRE) (TEMPORARY SPEED RESTRICTIONS & NO OVERTAKING) ORDER 2022**

The Welsh Ministers have made an Order under section 14 of the Road Traffic Regulation Act 1984, which is necessary to undertake works on or near the A477 trunk road between St Clears, Carmarthenshire and Pembroke Dock, Pembrokeshire.

The effect of the Order is to temporarily:

i. impose either a 40 mph or 10 mph speed limit and prohibit overtaking on the lengths of the A477 trunk road described in Schedule 1 to this Notice; and

ii. impose a 10 mph speed limit and prohibit overtaking on the lengths of the A477 trunk road described in Schedule 2 to this Notice.

The 10 mph speed limit will only apply during convoy working.

The Order comes into force on 5 September 2022. The temporary restrictions and prohibition are expected to operate from 00:01 hours on that date until 23:59 hours on 16 December 2022 or until the temporary traffic signs are permanently removed.

Although the Order is only expected to operate during the dates specified above it will remain valid for a maximum period of 18 months, as a contingency, should the work need to be rescheduled or consequential or other work is required. Notice of any changes to times and dates will be displayed before any rescheduled work begins.

A copy of the Order and Notice can be viewed on the Welsh Government's website at https://gov.wales/road-orders.

**A copy of this Notice in larger print can be obtained from Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.**

**J SADDLER**
Transport
Welsh Government

## ATODLEN 1
**Terfyn cyflymder 40 mya neu 10 mya dros dro a dim goddiweddyd**

Y darn o’r gefnffordd sy’n ymestyn o bwynt 93 o fetrau i’r de-orllewin o ganolbwynt ei chyffordd â’r ffordd sy’n arwain i Face hyd at bwynt 394 o fetrau i’r dwyrain o ganolbwynt ei chyffordd â ffordd yr C3045 i Amroth.

Y darn o’r gefnffordd sy’n ymestyn o bwynt 441 o fetrau i’r gorllewin o ganolbwynt ei chyffordd â ffordd yr C3045 i Amroth hyd at bwynt 268 o fetrau i’r gogledd-ddwyrain o’i chyffordd â’r B4586 i Broadmoor, gan gynnwys system gylchu Cylchfan Cilgeti.

Y darn o’r gefnffordd sy’n ymestyn o bwynt 288 o fetrau i’r de-orllewin o’i chyffordd â’r B4586 i Broadmoor hyd at bwynt 290 o fetrau i’r dwyrain o ganolbwynt ei chyffordd â’r ffordd ddiddosbarth o’r enw Stephens Green Lane, Milton, gan gynnwys systemau cylchu Cylchfannau Sageston a Chaeriw.

Y darn o’r gefnffordd sy’n ymestyn o bwynt 360 o fetrau i’r gorllewin o ganolbwynt ei chyffordd â’r ffordd ddiddosbarth o’r enw Stephens Green Lane, Milton, hyd at bwynt 726 o fetrau i’r de-ddwyrain o ganolbwynt ei chyffordd ag Eastern Avenue, Doc Penfro.

## ATODLEN 2
**Terfyn cyflymder 10 mya dros dro a dim goddiweddyd**

Y darn o’r gefnffordd sy’n ymestyn o’i chyffordd ag ochr dde-orllewinol Cylchfan Sanclêr hyd at bwynt 93 o fetrau i’r de-orllewin o ganolbwynt ei chyffordd â’r ffordd sy’n arwain i Face, gan gynnwys system gylchu Cylchfan Sanclêr.

Y darn o’r gefnffordd sy’n ymestyn o bwynt 394 o fetrau i’r dwyrain o ganolbwynt ei chyffordd â ffordd yr C3045 i Amroth hyd at bwynt 441 o fetrau i’r gorllewin o ganolbwynt y gyffordd honno.

Y darn o’r gefnffordd sy’n ymestyn o bwynt 268 o fetrau i’r gogledd-ddwyrain o ganolbwynt ei chyffordd â’r B4586 i Broadmoor hyd at bwynt 288 o fetrau i’r de-orllewin o ganolbwynt y gyffordd honno.

Y darn o’r gefnffordd sy’n ymestyn o bwynt 290 o fetrau i’r dwyrain o ganolbwynt ei chyffordd â’r ffordd ddiddosbarth o’r enw Stephens Green Lane, Milton hyd at bwynt 360 o fetrau i’r gorllewin o’r gyffordd honno.

## SCHEDULE 1
**Temporary 40 mph or 10 mph speed limit and no overtaking**

The length of the trunk road that extends from a point 93 metres south-west of the centre-point of its junction with the road leading to Backe to a point 394 metres east of the centre-point of its junction with the C3045 road to Amroth.

The length of the trunk road that extends from a point 441 metres west of the centre-point of its junction with the C3045 road to Amroth to a point 268 metres north-east of its junction with the B4586 to Broadmoor, including the gyratory of Kilgetty Roundabout.

The length of the trunk road that extends from a point 288 metres south-west of its junction with the B4586 to Broadmoor to a point 290 metres east of the centre-point of its junction with the unclassified road known as Stephens Green Lane, Milton, including the gyratories of Sageston and Carew Roundabouts.

The length of the trunk road that extends from a point 360 metres west of the centre-point of its junction with the unclassified road known as Stephens Green Lane, Milton to a point 726 metres south-east of the centre-point of its junction with Eastern Avenue, Pembroke Dock.

## SCHEDULE 2
**Temporary 10 mph speed limit and no overtaking**

The length of the trunk road that extends from its junction with the south-western side of St Clears Roundabout to a point 93 metres south-west of the centre-point of the road leading to Backe, including the gyratory of St Clears Roundabout.

The length of the trunk road that extends from a point 394 metres east of the centre-point of its junction with the C3045 road to Amroth to a point 441 metres west of the centre-point of that junction.

The length of the trunk road that extends from a point 268 metres north-east of the centre-point of its junction with the B4586 to Broadmoor to a point 288 metres south-west of the centre-point of that junction.

The length of the trunk road that extends from a point 290 metres east of the centre-point of its junction with the unclassified road known as Stephens Green Lane, Milton to a point 360 metres west of that junction.

Y darn o’r gefnffordd sy’n ymestyn o bwynt 726 o fetrau i’r de-ddwyrain o ganolbwynt ei chyffordd ag Eastern Avenue, Doc Penfro, hyd at ei chyffordd â Chylchfan Waterloo, Doc Penfro, gan gynnwys system gylchu’r gylchfan honno.

The length of the trunk road that extends from a point 726 metres south-east of the centre-point of its junction with Eastern Avenue, Pembroke Dock to its junction with, and including the gyratory of, Waterloo Roundabout, Pembroke Dock.